OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 755

# Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013

### Enwi, cychwyn a rhychwant

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2013.

(3) Mae i ddiwygiad, diddymiad neu ddirymiad a wneir gan y Gorchymyn hwn yr un rhychwant â'r ddarpariaeth y mae'n ymwneud â hi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 1 mewn grym ar 1.4.2013, gweler ergl. 1(2)

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y Corff” (“*the Body*”) yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**1**);

ystyr “Deddf 1995” (“*the 1995 Act*”) yw Deddf yr Amgylchedd 1995(**2**);

ystyr “deddfiad lleol” (“*local enactment*”) yw unrhyw Ddeddf leol neu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf leol neu yn rhinwedd Deddf leol;

ystyr “y Gorchymyn Sefydlu” (“*the Establishment Order*”) yw Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012(**3**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Ergl. 2 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

### Swyddogaethau cyffredinol Corff Adnoddau Naturiol Cymru

**3.** Mae Atodlen 1 yn cynnwys diwygiadau i'r Gorchymyn Sefydlu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Ergl. 3 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

(**1**) 1990 p. 43.
(**2**) 1995 p. 25.
(**3**) O.S. 2012/1903 (Cy. 230).

### Addasu a throsglwyddo swyddogaethau, darpariaethau canlyniadol a darpariaethau eraill

**4.**—(1) Mae Atodlenni 2 a 3 yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol sydd—

(a) yn addasu ac yn trosglwyddo i'r Corff swyddogaethau datganoledig Cymreig Asiantaeth yr Amgylchedd;

(b) yn addasu ac yn trosglwyddo i'r Corff ac i Weinidogion Cymru swyddogaethau datganoledig Cymreig y Comisiynwyr Coedwigaeth;

(c) yn addasu ac yn trosglwyddo i'r Corff swyddogaethau CCGC;

(d) yn trosglwyddo i'r Corff swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran yr amgylchedd;

(e) yn gwneud darpariaeth ganlyniadol, atodol a chysylltiedig.

(2) Mae Atodlenni 4, 5 a 6 yn cynnwys diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sydd—

(a) yn addasu ac yn trosglwyddo i'r Corff swyddogaethau datganoledig Cymreig Asiantaeth yr Amgylchedd;

(b) yn addasu ac yn trosglwyddo i'r Corff ac i Weinidogion Cymru swyddogaethau datganoledig Cymreig y Comisiynwyr Coedwigaeth;

(c) yn addasu ac yn trosglwyddo i'r Corff swyddogaethau CCGC;

(d) yn trosglwyddo i'r Corff swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran yr amgylchedd;

(e) yn gwneud darpariaeth ganlyniadol, atodol a chysylltiedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Ergl. 4 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

### Addasiadau eraill i ddeddfiadau

**5.** Mewn unrhyw ddeddfiad lleol sydd heb ei ddiwygio gan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Gorchymyn hwn, mae unrhyw gyfeiriad at CCGC (sut bynnag y'i mynegir), ac unrhyw gyfeiriad sydd i'w ddarllen fel cyfeiriad at CCGC, i'w drin fel cyfeiriad at y Corff.

**6.** Mewn unrhyw ddeddfiad lleol sydd heb ei ddiwygio gan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Gorchymyn hwn, mae unrhyw gyfeiriad at y Comisiynwyr Coedwigaeth (sut bynnag y'i mynegir) ac unrhyw gyfeiriad sydd i'w ddarllen fel cyfeiriad at y Comisiynwyr Coedwigaeth, i'w drin o ran Cymru fel cyfeiriad at y Corff.

**7.** Mewn unrhyw ddeddfiad lleol sydd heb ei ddiwygio gan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Gorchymyn hwn, heblaw deddfiad sy'n ymwneud â mordwyo, mae unrhyw gyfeiriad at Asiantaeth yr Amgylchedd (sut bynnag y'i mynegir) ac unrhyw gyfeiriad sydd i'w ddarllen fel cyfeiriad at Asiantaeth yr Amgylchedd, i'w drin o ran Cymru fel cyfeiriad at y Corff.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Ergl. 5 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**
**I6** Ergl. 6 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**
**I7** Ergl. 7 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

### Dileu Cyngor Cefn Gwlad Cymru

**8.**—(1) Mae CCGC wedi ei ddileu.

(2) Gan hynny, mae'r canlynol wedi eu diddymu—

(a) adrannau 128 i 134 o Ddeddf 1990(**4**);

(b) Atodlenni 6, 8 a 9 i Ddeddf 1990(**5**);

(c) Rhan 1 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(**6**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Ergl. 8 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

**Dileu pwyllgorau ymgynghorol**

**9.**—(1) Mae'r canlynol wedi eu dileu—

(a) Pwyllgor Ymgynghorol Gwarchod yr Amgylchedd a sefydlwyd yn unol ag adran 12(6) o Ddeddf 1995;

(b) y pwyllgor ymgynghorol pysgodfeydd rhanbarthol a lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 13(5) o Ddeddf 1995.

(2) Gan hynny, mae'r darpariaethau a ganlyn yn Neddf 1995 wedi eu diddymu—

(a) adran 12(**7**);

(b) adran 13(**8**);

(c) Atodlen 3;

(d) paragraff 3 o Atodlen 23.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Ergl. 9 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

**Darpariaethau trosiannol ac arbedion**

**10.** Mae Atodlen 7 yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbedion.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Ergl. 10 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

(**4**) 1990 p. 43. Diwygiwyd adran 130 gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p. 37), Atodlen 15, paragraff 11. Amnewidiwyd adrannau 128 a 129, diwygiwyd adrannau 130, 131, 132 a 134, a diddymwyd adran 133 gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p. 16), Atodlen 11, paragraffau 117 i 123. Gwnaed diwygiadau pellach i adrannau 128, 132 a 134 gan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23), adran 313.

(**5**) Cafwyd nifer o ddiwygiadau i Atodlenni 6, 8 a 9. Diwygiwyd yr Atodlenni hynny, a diddymwyd Atodlen 7, gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p. 16), Atodlen 11, paragraffau 126 a 127, ac Atodlen 12. O ran darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed mewn cysylltiad â diddymu Atodlenni 6, 8 a 9 i Ddeddf 1990, *gweler* Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn.

(**6**) 1949 p. 97. Amnewidiwyd adran 1 gan Ddeddf 1990, Atodlen 8, paragraff 1(2). Diwygiwyd adrannau 1 a 3 gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, Atodlen 11, paragraffau 7 ac 8. Diddymwyd adrannau 2 a 4 gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p. 69), Atodlen 17, Rhan 2.

(**7**) Cafodd y pwyllgorau eraill a sefydlwyd o dan adran 12 o Ddeddf 1995 eu dileu gan Orchymyn Cyrff Cyhoeddus (Dileu Pwyllgorau Ymgynghorol Gwarchod yr Amgylchedd) 2012 (O.S. 2012/2407).

(**8**) Cafodd y pwyllgorau eraill a sefydlwyd o dan adran 13 eu dileu gan Orchymyn Cyrff Cyhoeddus (Dileu Pwyllgorau Ymgynghorol Pysgodfeydd Rhanbarthol a Lleol) 2012 (O.S. 2012/2406).

*Alun Davies*
Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, un o Weinidogion Cymru

25 Mawrth 2013

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- Sch. 4 para. 113 omitted by S.I. 2017/1075 Sch. 9 para. 12
- Sch. 4 para. 169 revoked by S.I. 2015/1640 Sch. 6
- Sch. 4 para. 310-312 revoked by S.I. 2019/156 reg. 17(1)(b)
- Sch. 4 para. 79 revoked by S.I. 2016/58 Sch. 8
- Sch. 7 para. 9(1) substituted by S.I. 2015/483 Sch. 6 para. 8(2)(a)
- Sch. 7 para. 9(3) substituted by S.I. 2015/483 Sch. 6 para. 8(2)(b)